CYPE(6)-25-22 - Papur i'w nodi 7

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Tachwedd 2022

Annwyl Jayne,

**Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022**

Yn ystod y gwaith o graffu ar Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, addewais ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o ran ei gweithredu. Bwriad y llythyr hwn yw rhoi trosolwg o'r gwaith a gwblhawyd hyd yma a'r camau sy'n cael eu cymryd i fireinio'r cynllun gweithredu.

Gweithredu'r Ddeddf

Mae cynllun gweithredu cyffredinol wedi'i baratoi, ac mae fy swyddogion yn gweithio ar garlam i'w fireinio a'i gwblhau'n derfynol. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â CCAUC i sicrhau bod y gwaith yn cael ei lywio gan eu gwybodaeth a'u harbenigedd nhw.

Mae Bwrdd Strategaeth Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, yr wyf yn ei gadeirio, ac y mae rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r sector yn aelodau ohono, i fod i gyfarfod ddechrau Rhagfyr. Yn y cyfarfod hwn, rwy'n bwriadu holi barn yr aelodau am y cynllun cyffredinol, gan ddefnyddio arbenigedd i brofi a mireinio'r cynlluniau ymhellach.

Rydym am weithredu Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil a ffurfio'r Comisiwn mewn ffordd raddol, ar sail tair egwyddor greiddiol:

- Sicrhau parhad y ddarpariaeth ar gyfer y sector heb amharu mewn ffordd amlwg ar ddarparwyr na dysgwyr wrth i'r Comisiwn gael ei sefydlu,

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Osgoi rhoi baich diangen ar ddarparwyr yn ystod y cyfnod gweithredu, er enghraifft rheoli a chyd-drefnu lefel ac amseru'r ymgysylltu a'r ymgynghori ffurfiol,
- Trefnu bod y dyletswyddau strategol, a nodir yn Rhan 1 y Ddeddf, yn ffurfio sylfaen greiddiol gwaith y Comisiwn o'r dechrau'n deg, gan gynnwys paratoi a chyhoeddi datganiad o flaenoriaethau Gweinidogion Cymru.

Yn ogystal â'r gweithgarwch gweithredu a'r is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol er mwyn darparu ar gyfer swyddogaethau statudol y Comisiwn, mae yna waith sylweddol i'w wneud o hyd i ddarparu ar gyfer y diwygiadau canlyniadol y mae angen eu gwneud i ddeddfwriaeth bresennol a darpariaethau trosiannol ac arbed er mwyn sicrhau cyfnod pontio llyfn. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn canolbwyntio cryn adnoddau ar asesu hyd a lled y gwaith hwn i sicrhau bod sail gyflawn i'r cynllun gweithredu ac i leihau risg canlyniadau anfwriadol.

Mae'n bwysig cydnabod, er y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd y camau angenrheidiol er mwyn galluogi'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau newydd, mai yn nwylo'r Comisiwn y bydd y gwaith o weithredu'r diwygiadau y darperir ar eu cyfer yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a fydd yn y sefyllfa orau i weithio gyda'r sector a nodi sut orau i weithredu'r darpariaethau, ac ym mha drefn, a hynny er mwyn cyflawni'r diwygiadau gorau posibl ar gyfer y sector a dysgwyr.

Er bod gweithredu Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ganolog i'r gwaith o sefydlu'r Comisiwn, bydd angen rhoi sylw i sawl gweithgaredd hollbwysig arall er mwyn ei greu, ac mae rhaglen waith yn cael ei datblygu mewn perthynas â chyllid, llywodraethiant, system a phrosesau, lleoliad a strwythur sefydliadol. O fewn y gwaith hwn, mae sylw penodol yn cael ei roi ar hyn o bryd i ddatblygu a chytuno ar ddull o drosglwyddo staff o CCAUC a Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn, gan weithio'n agos gyda'r undebau llafur perthnasol.

<u>Amserlen weithredu lefel uchel</u>

Yn gyffredinol, bydd chwe cham i'r dull gweithredu arfaethedig, sydd hefyd wedi'u nodi mewn amserlen lefel uchel yn Atodiad A i'r llythyr hwn:

a) Hydref 22 – Haf 23: Cyfnod gweithredu
Yn ystod y cyfnod hwn, canolbwyntir yn bennaf ar waith rhaglen weithredu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, mewn cydweithrediad â CCAUC a rhanddeiliaid allweddol, i gwblhau'r gweithgareddau gweithredu angenrheidiol er mwyn creu'r Comisiwn.

Yn ystod y cyfnod hwn, rwyf hefyd yn bwriadu, yn unol ag adran 9 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, dynodi corff i roi cyngor i'r Comisiwn, gyda'r bwriad o'i gefnogi i gyflawni ei ddyletswydd strategol i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

b) Rhagfyr 22: Ei wneud yn endid cyfreithiol
Byddaf yn gwneud y Gorchymyn cychwyn cyntaf o dan y Ddeddf cyn diwedd 2022, gan greu'r Comisiwn fel endid cyfreithiol. Ni fydd gan y Comisiwn swyddogaethau i ddechrau, ac ni fydd cyfansoddiad iddo hyd nes y bydd y nifer gofynnol o aelodau wedi'u penodi.

Bydd creu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fel endid cyfreithiol yn galluogi Gweinidogion Cymru i benodi aelodau creiddiol y Comisiwn, ac i gwblhau gweithgareddau gweithredu corfforaethol allweddol fel creu cyfrifon banc ac ati.

c) Haf 23: Sefydlu
Dyma pryd y caiff y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, y Prif Swyddog Gweithredol ac o leiaf bedwar aelod arferol eu penodi ac y bydd i’r Comisiwn gyfansoddiad cyfreithiol.

d) Haf 23 – Ebrill 24: Cyfnod sefydlu
Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Gweinidogion Cymru a CCAUC yn parhau i gyflawni eu swyddogaethau presennol, a gellid gweithredu rhai o swyddogaethau priodol y Comisiwn at ddiben gwaith paratoi.

Mae fy swyddogion a minnau wrthi’n ystyried ar hyn o bryd sut i sicrhau bod y Comisiwn yn cael ei gefnogi’n briodol yn ystod y cyfnod hwn, ac na fydd amharu na dryswch amlwg i’r sector. Mae’r gwaith hwn ar y gweill, a byddaf yn darparu rhagor o fanylion i’r Pwyllgor maes o law.

e) Ebrill 24 fan bellaf: Dyddiad gweithredol
Yn amodol ar y pwynt isod, dyma pryd y daw swyddogaethau statudol y Comisiwn i rym, ac y caiff swyddogaethau presennol CCAUC a Gweinidogion Cymru eu diddymu. Dyma hefyd pryd y caiff y staff perthnasol eu trosglwyddo o Lywodraeth Cymru a CCAUC i’r Comisiwn.

f) Ebr 24 – Haf 26: Cyfnod pontio
Un elfen greiddiol o weithredu Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil yw sefydlu’r trefniadau cofrestru a rheoleiddio newydd. Bydd y cyfnod pontio, felly, yn para hyd nes y bydd y trefniadau newydd hyn yn gwbl weithredol.

Yn unol â’r Datganiad o Fwriad Polisi, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â’r Ddeddf wrth ei chyflwyno, caiff y gofrestr ei sefydlu mewn perthynas â darparwyr addysg uwch ac ymchwil o’r dechrau’n deg, gyda’r bwriad y bydd y darparwyr hyn wedi’u nodi ar y gofrestr erbyn haf 2025, ac y bydd y trefniadau rheoleiddio newydd yn berthnasol i flwyddyn academaidd 2026/27.

Wrth bennu’r amserlen hon ar gyfer y system gofrestru, rwy’n ceisio cydbwyso rhoi digon o amser i’r Comisiwn, a’r sector, i wneud y trefniadau angenrheidiol i weithredu’r system, a sicrhau ar yr un pryd bod y trefniadau newydd yn effeithiol ar lawr gwlad cyn gynted ag y bo’n ymarferol.

<u>Penodi aelodau’r Comisiwn</u>

Ar ôl gwneud y Gorchymyn cychwyn cyntaf, rwy’n bwriadu penodi’r Cadeirydd a’r Dirprwy Gadeirydd ddechrau 2023.

Mae’n bleser gen i ddweud bod yr ymgeiswyr ar gyfer y ddwy swydd yn rhai cryf, bod cyfweliadau wedi’u cynnal yn ddiweddar, a bod trefniadau wedi’u gwneud i’r Pwyllgor gyfarfod â’r ymgeiswyr a ffefrir ar gyfer y swyddi, cyn eu penodi, ar 15 Rhagfyr.

Mae'r broses o recriwtio'r Prif Swyddog Gweithredol, a fydd, rwy'n rhagweld, yn dechrau ar ei swydd yn yr haf 2023, hefyd yn symud yn ei blaen, ac mae camau cyntaf asesu'r ceisiadau ar y gweill.

Rydym bellach yn gwneud cynlluniau i recriwtio'r aelodau arferol, gyda'r bwriad o recriwtio chwe aelod i ddechrau, er mwyn sicrhau digon o wybodaeth ynghylch y sector ac arbenigedd, gan ofalu ar yr un pryd bod hyblygrwydd i recriwtio aelodau pellach unwaith y bydd y Comisiwn yn weithredol.

Wrth edrych i'r dyfodol, rwy'n bwriadu gwneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn gallu penodi'r gweithlu cyswllt a'r aelod-ddysgwyr fel y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau'r Comisiwn pan fydd yn weithredol.

Gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â sefydlu'r Comisiwn

Tra oedd y Ddeddf yn destun craffu gan y Senedd, codwyd cwestiwn llywodraethiant gan randdeiliaid.

Rwy'n awyddus inni gydymdrechu i roi'r amser i ymchwilio i botensial datblygu egwyddorion creiddiol a chyson ar gyfer llywodraethiant darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru. Rhaid i'r dyletswyddau strategol newydd, fel mynegiant o'n cydflaenoriaethau a'n cydwerthoedd, ddylanwadu mewn ffordd allweddol ar y ffordd rydym yn meddwl am lywodraethiant effeithiol, atebol, egwyddorol, tryloyw sy'n rhoi sylw i ymwybyddiaeth ddinesig.

Yn ddelfrydol, byddai'r gwaith hwn yn symud ymlaen wrth i'r Comisiwn ddechrau ei waith er mwyn i'r Comisiwn allu ystyried sut i fynd i'r afael â'r materion hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol. Rwy'n bwriadu ymchwilio i'r opsiynau a'r amseru posibl ar gyfer y gwaith hwn, a sut y gallai gyd-fynd â'r gweithgareddau gweithredu ehangach, ac rwy'n gobeithio gallu rhannu mwy o fanylion maes o law.

Rwy'n rhagweld y byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor eto yn y Flwyddyn Newydd, gyda manylion pellach am y cynllun gweithredu a'r is-ddeddfwriaeth y byddwn yn ei gwneud i roi Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar waith. Os oes unrhyw feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor, byddwn yn hapus i roi mwy o wybodaeth ar yr adeg briodol.

Rwyf wedi rhoi copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.



**Jeremy Miles AS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

**Atodiad A – Gweithredu Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil – Amserlen Lefel Uchel**

